**CYNGOR CYMUNED TROEDYRAUR**

**COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 6 GORFFENNAF, 2021**

**CYNHALIWYD Y CYFARFOD DROS ZOOM**

**Yn bresennol** Cyng. Mark Davies (cadeirydd)
Cyng. Emyr Jones
Cyng. Maldwyn Lewis
Cyng. Roger Davies
Cyng. Llŷr Evans
Cyng. Owenna Davies
Cyng. Ceri Jones
Cyng. Julie Davies
Cyng. Teifi Evans

**Ymddiheuriadau** Cyng. Sharon Thomas

**Clerc** Margaret Jones

| **Eitem ar yr Agenda** | | **Gweithredu** | **Gan bwy** | **Erbyn pryd** |
|---|---|---|---|---|
| 1 | Ymddiheuriadau | Cafwyd ymddiheuriadau gan Gyng. Sharon Thomas. | | |
| 2 | Datgelu Budd | Datgelwyd budd gan Gyng. Julie Davies a Chyng. Emyr Jones ym mater cynllunio A210520 (Glynyrodyn, Coed-y-bryn) gan eu bod yn ffinio â'r eiddo. | | |
| 3 | Cofnodion cyfarfod mis Mehefin | Roedd pob Cynghorydd wedi cael copi o gofnodion cyfarfod mis Mehefin. | | |
| 4. | | **<u>Materion yn Codi</u>** – Diwygiwyd y papur pennawd gan y Clerc ac roedd yr holl fanylion perthnasol yn glir.<br>Llofnodwyd yr holl sieciau i'w talu o gyfarfod mis Mehefin.<br>Yn dilyn cyfarfod mis Mehefin, cadarnhaodd y Clerc bod yr holl faterion perthnasol wedi cael eu hadrodd ar CLIC. | | |
| 5. | Cadarnhau Cofnodion | Cynigiodd Cyng. Maldwyn Lewis bod cofnodion cyfarfod mis Mehefin yn gywir ac eiliwyd y cynnig hwn gan Gyng Teifi Evans. | | |
| 6. | Adroddiad y Cynghorydd Sir | Hysbyswyd y cyfarfod gan Gyng. Maldwyn Lewis bod modd cysylltu â Crimestoppers mewn ffordd ddienw nawr er mwyn adrodd am droseddau fel gwerthu alcohol i unigolion dan oed, gwerthu cyllyll a sylweddau anghyfreithlon. Y rhif er mwyn cysylltu â CRIMESTOPPERS yw 0800 555111. Mae Safonau Masnach yn croesawu'r gwasanaeth newydd hwn.<br><br>Yn ogystal, roedd Cyng. Lewis yn dymuno tynnu sylw'r cyfarfod ar y ffaith bod Mr. Steve Owen wedi cerdded 88 milltir o Gaerdydd i Benlan er mwyn cefnogi Woody’s Lodge. Canolfan alw heibio yw Woody’s Lodge ar gyfer pobl o'r lluoedd arfog, y gwasanaeth ambiwlans, y frigâd dân ac ati, sy'n dioddef problemau iechyd meddwl. Roedd yr holl Gynghorwyr yn dymuno'n dda i Woody’s Lodge yn y dyfodol. | | |

Mae gan Gyngor Sir Ceredigion gynllun gweithredu i fod yn sir carbon sero-net erbyn 2030.

Yn ogystal, hysbyswyd y cyfarfod gan Gyng. Lewis bod ardal Dyffryn Teifi o fewn yr Ardal Gadwraeth Arbennig a bod y lefel ffosffad yn uchel iawn yn ôl Cyfoeth Naturiol Cymru a bod Afon Teifi yn methu ar lefel o 50%. Felly, asesir pob cais cynllunio yn ofalus a bydd pob cais cynllunio yn cael eu hoedi am gyfnod hir o bosibl.

7. Penodi Cynghorydd newydd – gosodir hysbyseb yn yr holl hysbysfyrddau ac ar-lein hefyd. Hysbysir Democracy@Ceredigion.gov.uk o ymddeoliad Cyng. E.J. Jones.
Gofynnir i Un Llais Cymru am gynllun hysbyseb. **Clerc**

8. Gohebiaeth

**Un Llais Cymru** – Asesiad Risg ar gyfer cyfarfodydd mewn neuadd. Trafodwyd y mater o ddychwelyd i neuaddau o fis Medi ymlaen ac roedd pawb o blaid dychwelyd i neuaddau erbyn mis Medi gobeithio, gan ddibynnu ar y rheolau a'r rheoliadau ynghylch Covid ar yr adeg honno. Er mwyn paratoi ar gyfer hyn, bydd y Clerc yn cael ffurflenni asesiad risg ar gyfer y 3 neuadd, gan anfon copi ymlaen i bob Cynghorydd. **Clerc**

**Ombwdsmon Cymru** – anfonwyd y Cod Ymddygiad ymlaen. Dywedodd Cyng. Mark Davies a Chyng. Maldwyn Lewis nad oes rhyw lawer wedi newid, ond y byddai'n ddefnyddiol i bob Cynghorydd gael copi er mwyn gallu cyfeirio ato. Bydd y clerc yn argraffu un copi caled ac yn cadw un mewn ffeil, a bydd yn cadw copi PDF hefyd, gan anfon copi ymlaen i bob Cynghorydd mewn neges e-bost. **Clerc**

**Cyflymder Traffig** – roedd y Clerc wedi cael neges e-bost gan Mr. Chris Spencer ynghylch y cyflymder y mae traffig yn teithio trwy Groes-lan. Roedd yr ymateb a gafwyd gan Gyngor Sir Ceredigion wedi'i atodi i'r neges e-bost, a oedd yn cynnwys gwybodaeth ynghylch **gosafesnap.wales** lle y gall aelodau'r cyhoedd anfon fideos neu dystiolaeth gan gamerâu dangosfwrdd o unrhyw bryderon ynghylch goryrru, gyrru peryglus ac ati.

**Diffibrilwyr** – Bellach, mae'r holl ddiffibrilwyr yn y gymuned wedi cael eu cofrestru gyda Gwarcheidwad, a hysbyswyd Pauline Bett. Diweddarwyd y Gylched a chaiff rhestr dyddiadau dod i ben y padiau ei diweddaru. **Clerc**
Diolchodd Cyng Owenna Davies i bawb a oedd wedi cynnig bod yn Warcheidwaid i'r Diffibrilwyr.

9. Cynllunio

**<u>A210483 Clos Glas, Coed-y-bryn</u>**
Cytunodd Iechyd yr Amgylchedd i'r cais bod mwy o le yn cael ei ddarparu.
Holodd Priffyrdd gwestiwn am y ffaith nad oes digon o le i barcio ac ati. Trafodwyd y mater ac roedd pawb yn cytuno cefnogi'r cais os dilynir yr holl amodau cynllunio. Cynigiwyd gan Gyng. Owenna Davies ac fe'i eiliwyd gan Gyng. Teifi Evans.

**<u>A210520 – Glynyrodyn, Coed-y-bryn.</u>**

Trafodwyd y cais, ac unwaith eto, roedd yr holl Gynghorwyr yn cytuno i'r cais hwn, ar yr amod y dilynir yr holl reolau cynllunio ac ati.

10. Ariannol

**Ymchwiliad Archwilio** – Ni chafwyd gohebiaeth, felly anfonir llythyr unwaith eto yn gofyn am ddiweddariad. **Clerc**

Bydd gofyn llenwi'r ffurflenni archwilio newydd erbyn blwyddyn nesaf.

**Llofnodwyr NatWest** – Roedd Cyng Mark Davies wedi mewngofnodi i wasanaeth ar-lein NatWest ac roedd 7 cam er mwyn diwygio/ychwanegu llofnodwyr newydd. Trafodwyd y mater hwn ac roedd yr holl Gynghorwyr yn cytuno y dylid ychwanegu'r Cynghorwyr canlynol i'r holl gyfrifon mewn perthynas â Chyngor Cymuned Troedyraur. Enwau'r Cynghorwyr i'w hychwanegu i'r cyfrif yw Cyng. Llŷr Evans, Cyng. Ceri Jones, Cyng. Mark Davies, Cyng. Julie Davies, Cyng. Teifi Evans a Chyng. Sharon Thomas. Cynigiwyd hyn gan Gyng. Owenna Davies, eiliwyd y cynnig hwn gan Gyng. Maldwyn Lewis ac roedd pawb yn cytuno.

Bydd y Clerc yn mewngofnodi i gyfleuster ar-lein NatWest ar yn nodi'r manylion gofynnol. **Clerc**

**Taliadau** CThEM - £42.60
Cyflog y Clerc - £169.80

Bydd Cynghorwyr Owenna Davies a Maldwyn Lewis yn llofnodi'r sieciau hyn.
Bydd y Clerc yn trefnu hyn gyda nhw.

Gan na fydd cyfarfod ym mis Awst, awgrymodd Cyng. Emyr Jones y dylai'r Clerc drefnu bod 2 siec bellach yn cael eu llofnodi gan yr un bobl, ar ôl cael symiau gan Ashmole & Co., er mwyn i'r taliad i CThEM gael ei wneud mewn pryd a hefyd, er mwyn i'r Clerc gael ei chyflog. Roedd pob Cynghorydd yn cytuno. **Clerc**

**Cynllunio'r Gyllideb** – Anfonir copi o'r gwaith diweddaraf o gynllunio'r gyllideb ymlaen at bob Cynghorydd mewn neges e-bost ac oherwydd na chynhelir cyfarfod ym mis Awst, dylai'r Cynghorwyr fwrw golwg dros y manylion ynghylch cynllunio'r gyllideb yn barod ar gyfer y cyfarfod ym mis Medi.

**Taenlen –** Ychwanegir colofn ychwanegol er mwyn caniatáu llythrennau cyntaf y sawl sydd wedi llofnodi'r sieciau. Yn ogystal, mae angen creu ail daenlen ar gyfer cyfrif banc rhif 2. **Clerc**

**Penodi Archwilydd Allanol** – Trafodwyd y mater gyda'r Cynghorwyr ac roedd pawb yn cytuno bod angen penodi archwilydd. Gofynnir i Mr. Gwyn Jones. Cynigiodd Cyng. Maldwyn Lewis gael sgwrs gyda Mr. Jones yn gyntaf, ac y bydd llythyr ffurfiol yn dilyn wrth y Clerc

11. Materion Ardal

Diolchodd Cyng Emyr Jones i'r Cynghorydd a oedd wedi plannu blodau dan arwydd y pentref ym Mhenrhiwpâl.
Cadarnhaodd Cyng. Emyr Jones hefyd ei fod wedi cael neges e-bost yn cadarnhau y llwyddwyd i sicrhau 100 llofnod ar gyfer Wii-fibre.
Mae casglu sbwriel y cartref yn parhau i fod yn broblem, ond

| | | |
|---|---|---|
| | | esboniodd Cyng. Roger Davies bod hyn oherwydd bod cerbydau wedi torri i lawr a bod staff wedi bod yn sâl.<br><br>**<u>Ffostrasol</u>** – roedd y geiriau Dion 18 wedi cael eu paentio ar arwydd y pentref. Adroddir wrth CLIC am y mater. **Clerc.**<br><br><u>Torri porfa</u> – nododd Cyng. Owenna Davies bod y porfa wedi cael ei dorri yn y pentref, ond gan nad oedd y porfa wedi cael ei dorri ger mainc y pentref, ei bod yn amhosibl defnyddio'r fainc nawr. Fodd bynnag, mae preswylwyr newydd ym mhentref Ffostrasol wedi penderfynu mynd ati i dorri'r porfa, felly mae modd defnyddio'r fainc nawr. Diolchodd y Cynghorwyr i'r preswylwyr hyn.<br><br><u>Diffibriliwr</u> – gan bod y clwb pêl-droed yn Ffostrasol wedi'i leoli y tu allan i'r pentref, trafodwyd a phenderfynwyd holi i aelodau'r clwb pêl-droed a fyddai modd iddynt drefnu bod diffibriliwr yn cael ei osod yn y clwb. Bydd Cyng. Maldwyn Lewis yn siarad gyda Geraint o Glwb Ffostrasol a bydd yn adrodd yn ôl i'r Cynghorwyr. |
| 12. | Cyfyngiadau Cyflymder | Oherwydd y pryder parhaus gan breswylwyr yn y gymuned ynghylch traffig yn goryrru trwy bentrefi ac ar ffyrdd gwledig, trafodwyd y mater a phenderfynwyd ysgrifennu llythyr at y Pennaeth Priffyrdd, gan esbonio pryderon preswylwyr a gofyn a fyddai modd trefnu cyfarfod lle y gallai aelodau'r Adran Briffyrdd ymweld â'r pentrefi i weld pryderon y bobl. Bu damwain ym Mwlch-y-groes rhwng bws ysgol a char yn ystod yr wythnos ddiwethaf.<br><br>Adroddodd Cyng. Maldwyn Lewis bod preswylwyr ym Mhenrhiwpâl wedi cysylltu ag ef i fynegi pryderon am gyfanswm y traffig a'r cyflymder y maent yn gyrru trwy Benrhiwpâl, gan ofyn hefyd a fyddai modd gosod cyfyngiad 40 milltir yr awr yn y pentref. Roedd pentref Brongest wedi gweld cynnydd yng nghyfanswm y traffig yn ystod y flwyddyn ddiwethaf hefyd.<br><br>Felly, penderfynwyd anfon llythyr ymlaen i'r Adran Briffyrdd i ofyn am gyfarfod yn y pentrefi o fewn ardal Cyngor Cymuned Troedyraur. |
| 13. | Cyfarfod Nesaf. | Cynhelir y cyfarfod nesaf ar NOS FAWRTH, 7 MEDI am 7.30 p.m. Y lleoliad i'w gadarnhau yn unol â'r sefyllfa a'r cyfyngiadau mewn perthynas â Covid. Cynigiodd Cyng. Owenna Davies y dylid dychwelyd i'r neuadd os oes modd, ac eiliwyd y cynnig hwn gan Gyng. Julie Davies. Roedd pob Cynghorydd yn cytuno.<br><br>Gan nad oedd unrhyw fusnes arall i'w drafod, tynnodd y Cadeirydd y cyfarfod at ei derfyn am 9.45 p.m. |
| 14. | Eitemau ar gyfer y Cyfarfod Nesaf | Ymddiheuriadau<br>Datgelu Budd<br>Cofnodion y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol diwethaf<br>Cadarnhau Cofnodion<br>Adroddiad y Cynghorydd Sir<br>Cynghorydd Sir Newydd<br>Gohebiaeth |

Cynllunio
Cyllid – Archwiliad
Diweddariad am y Gorchymyn/Llofnodwyr
Taliadau
Cynllunio'r gyllideb
Materion Ardal
Dyddiad y cyfarfod nesaf

| | | |
|---|---|---|
| 15. | Cyfarfod Nesaf | **NOS FAWRTH, 7 MEDI, 2021** am **7.30 p.m.**<br>Y lleoliad i'w gadarnhau yn nes ymlaen yn y dyfodol, gan ddibynnu ar Reolau a Rheoliadau Covid. |